5. Yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfarfod Blynyddol â'r Rhieni

Mae'r adran hon yn ymdrin â chyfrifoldeb y corff llywodraethu i:

- gynhyrchu adroddiad blynyddol;
- cynnal cyfarfod blynyddol â'r rhieni.

Cefndir

1. Mae'n ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gynhyrchu adroddiad bob blwyddyn ar ei waith yn ystod y flwyddyn academaidd. Hefyd, mae'n ofynnol i gorff llywodraethu, yn amodol ar eithriadau penodol, gynnal cyfarfod ar gyfer rhieni i drafod yr adroddiad blynyddol.

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr

2. Mae'n rhwymedigaeth statudol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gynhyrchu adroddiad blynyddol.

3. Mae'n rhaid i'r adroddiad o leiaf gynnwys gwybodaeth benodol fel y nodir ym Mhennod 6 y canllaw hwn o'r enw 'Darparu Gwybodaeth' a Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2004. Gall yr adroddiad gynnwys gwybodaeth arall fel y mae'r corff llywodraethu'n ystyried sy'n berthnasol. Bydd y rheoliadau a'r canllawiau ategol hyn yn cael eu diwygio yn 2009 ar ôl ymgynghori.

4. Mae gan y corff llywodraethu'r cyfle hefyd i baratoi adroddiad cryno, ac mae cynnwys sylfaenol hwn hefyd wedi'i ragnodi yn y rheoliadau.

5. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu o leiaf ddosbarthu copi o'r adroddiad cryno i'r holl rieni a'u hysbysu bod copi o'r adroddiad llawn ar gael iddynt os ydynt am ei dderbyn.

6. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw pennu'r iaith neu'r ieithoedd a'r ffurf y cynhyrchir yr adroddiad, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan yr ALl.

7. Nid oes adeg benodol o'r flwyddyn ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad blynyddol, ond er mwyn cydymffurfio â gofynion pennu targedau, anogir cyrff llywodraethu i gyhoeddi eu hadroddiadau yn ystod tymor yr hydref.

8. Mae'n rhaid darparu'r adroddiad blynyddol i rieni o leiaf 2 wythnos cyn y cyfarfod blynyddol lle bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried.

9. Cyfrifoldeb corfforaethol y corff llywodraethu yw ysgrifennu'r adroddiad blynyddol ac ni ddylai'r pennaeth orfod gwneud hun ar ei ben/phen ei hun. Yn aml, bydd corff llywodraethu yn sefydlu gweithgor yn cynnwys rhai

llywodraethwyr, er mwyn paratoi drafft i'w ystyried mewn cyfarfod. Mae hwn yn ymarfer defnyddiol ac yn cynorthwyo i rannu'r llwyth gwaith tra'n sicrhau 'perchnogaeth'.

Y Cyfarfod Blynyddol â'r Rhieni

10. Mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gynnal cyfarfodydd blynyddol ar gyfer rhieni yn unol â Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005. Diben y cyfarfod hwn yw trafod yr adroddiad blynyddol a materion eraill sy'n ymwneud â'r ysgol.

11. Mewn ysgol a gynhelir lle mae o leiaf 50% o'r disgyblion yn lletywyr neu mewn ysgol arbennig gymunedol wedi'i sefydlu mewn ysbyty, gall y corff llywodraethu benderfynu ei bod yn anymarferol cynnal cyfarfod.

12. Mewn ysgolion a gynhelir eraill, mae'r corff llywodraethu yn cael ei eithrio rhag cynnal cyfarfod yn ystod unrhyw flwyddyn lle:

- mae'n cynnal cyfarfod ar ôl arolygiad ysgol, i drafod adroddiad yr arolygydd cyn paratoi'r cynllun gweithredu.
- mae'n cynnal cyfarfod neu gyfres o gyfarfodydd lle mae'r holl rieni wedi'u gwahodd i o leiaf un o'r gyfres o gyfarfodydd, a:
  - bod 20% neu fwy o rieni disgyblion cofrestredig yn mynychu'r cyfarfod neu o leiaf un o'r cyfarfodydd;
  - mae gan y rhieni'r cyfle yn y cyfarfodydd hyn i drafod y dull y mae'r ysgol wedi, ac yn mynd i gael, ei chynnal a pherfformiad yr ysgol; a
  - bod tri llywodraethwr neu fwy yn bresennol yn y cyfarfod(ydd).
- mae llai na 5% o rieni disgyblion cofrestredig yn ymateb i hysbysiad a anfonir gyda'r adroddiad blynyddol yn gofyn i rieni a ydynt am i'r corff llywodraethu gynnal y cyfarfod blynyddol.

Nid yw'r eithriadau hyn yn gymwys pan:

- na chynhaliwyd cyfarfod rhieni blynyddol yn y flwyddyn flaenorol, neu
- mae'r corff llywodraethu yn derbyn cais ysgrifenedig gan rieni o leiaf 5% o'r disgyblion cofrestredig cyn 31 Mai mewn blwyddyn ysgol, yn gofyn am gyfarfod rhieni blynyddol.

Presenoldeb

13. Rhaid i holl rieni disgyblion yr ysgol gael hawl i fynychu'r cyfarfod. Mae gan y pennaeth hefyd yr hawl i fynychu, waeth a yw'n llywodraethwr neu beidio. Gall y corff llywodraethu ddewis gwahodd pobl eraill i fynychu hefyd.

Diben y cyfarfod

14. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod rhieni'n cymryd mwy o ran yn addysg eu plant. Bydd mwy o rieni am wybod sut mae eu hysgol yn bwriadu gwneud gwelliannau wrth i fentrau newydd gael eu cyflwyno mewn ysgolion. Mae'r cyfarfod blynyddol â'r rhieni yn darparu'r cyfle hwnnw ac yn gyfle i lywodraethwyr ddangos eu bod yn atebol i rieni.

15. Yn ogystal â thrafod yr adroddiad blynyddol, mae'n rhaid i'r cyfarfod gynnig cyfle i rieni drafod yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys perfformiad y llywodraethwyr, y pennaeth a'r ALl yn ystod y flwyddyn, nodau a gwerthoedd yr ysgol a datblygiad disgyblion yn y cyd-destun ehangaf (ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol).

16. Dylid manteisio ar y cyfarfod i rannu cynlluniau'r corff llywodraethu ar gyfer hyrwyddo cyrhaeddiad addysgiadol, ymddygiad da a disgyblaeth o safon uchel, ac i geisio barn y rhieni. Dylai hyn sicrhau bod y cyfarfod yn rhoi gwir gyfle i rieni leisio'u barn ynghylch dyfodol yr ysgol yn hytrach nag edrych yn ôl ar y flwyddyn flaenorol yn unig.

17. Gall y corff llywodraethu gytuno y gall y rhieni sy'n bresennol yn y cyfarfod gymeradwyo cynigion (awgrymiadau ffurfiol) ar unrhyw rai o'r pynciau a godir. Yna, rhaid i'r corff llywodraethu ystyried y cynigion, neu eu trosglwyddo i'r pennaeth neu'r ALl os yw hynny'n briodol. Rhaid cynnwys sylw ar unrhyw gynnig a gymeradwywyd yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Trefnu'r Cyfarfod

18. Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am gynllunio a chynnal y cyfarfod â rhieni. Cyn y cyfarfod bydd angen iddynt benderfynu:

- yr amser a'r lle;
- yr agenda;
- pwy ddylai gadeirio'r cyfarfod – cadeirydd y corff llywodraethu fel rheol;
- pwy fydd yn nodi unrhyw benderfyniadau a gaiff eu gwneud; a
- phwy i'w gwahodd i helpu i ateb y cwestiynau.

19. Nid oes angen i'r cyfarfod blynyddol â'r rhieni fod yn achlysur ffurfiol oherwydd ei fod yn gyfreithiol angenrheidiol i'w gynnal. Dylai cyrff llywodraethu ystyried y ffordd orau o annog trafodaeth ddefnyddiol. Gallai hyn gynnwys edrych ar sut yr anfonir gwahoddiadau allan, cynnig lluniaeth, y math o groeso a mannau eistedd.

Yn fyr

Y Corff Llywodraethu

- rhaid iddo baratoi adroddiad blynyddol, yn unol â'r rheoliadau;
- rhaid iddo ddosbarthu'r adroddiad fel sy'n ofynnol;
- rhaid iddo gynnal cyfarfod â'r rhieni bob blwyddyn, yn amodol ar eithriadau penodol a nodir yn y rheoliadau;
- rhaid iddo wahodd yr holl rieni a'r pennaeth, ac unrhyw un arall yr ystyrir ganddo'n briodol;
- rhaid iddo lywio'r cyfarfod;
- rhaid iddo alluogi i gynigion gael eu cymeradwyo;
- rhaid iddo ystyried ac adrodd yn ôl ar unrhyw gynigion a gymeradwywyd;
- gall ofyn i'r pennaeth neu'r ALl gyflwyno sylwadau ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau.

Y Gyfraith

Rheoliadau Addysg (Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni) (Esemptiadau) (Cymru) 2005 OS 2005/2911

Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001 OS 2001/1110, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2004 OS 2004/1735.

Disgwylir i Reoliadau newydd gael eu gwneud yn 2009.